

## **Ymateb i'r adroddiad ar y cyd gan y Pwyllgor Cyllid, y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg a'r Pwyllgor Cydraddoldeb, Llywodraeth Leol a Chymunedau ar 'Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol' (Mawrth 2019)**

Mae Llywodraeth Cymru yn croesawu'r adroddiad ar y cyd ar *Asesu effaith penderfyniadau cyllidebol* a gyhoeddwyd. Rydym hefyd yn croesawu'r ddadl adeiladol a gynhaliwyd yn ystod y broses o graffu ar ein cynigion cyllidebol a byddwn yn ystyried yr holl dystiolaeth ac adborth a gyflwynwyd mewn perthynas ag asesiadau o effaith, gan gynnwys gan bwyllgorau polisi unigol.

Llywodraeth Cymru oedd y llywodraeth gyntaf yn y DU i gyhoeddi asesiad o effaith ein cynlluniau gwariant ar gydraddoldeb fel rhan o Gyllideb 2011-12. Ers hynny rydym wedi mynd ati i adolygu'n barhaus ac adeiladu dull cynyddol soffistigedig o asesu effaith cyllideb Llywodraeth Cymru. O 2015-16 mae hyn wedi datblygu'n broses lle rydym yn paratoi Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb.

At hynny, ond ar wahân iddo, mae Llywodraeth Cymru wedi mynd ati i ddatblygu a symleiddio'r ffordd y mae'n asesu ac yn arfarnu effeithiau polisiâu ym mhob rhan o'r Llywodraeth.

Rydym yn derbyn, neu'n derbyn mewn egwyddor, holl argymhellion yr adroddiad. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o argymhellion mewn perthynas â'r Asesiad Integredig Strategol o'r gyllideb a'r adnodd asesu effaith integredig newydd. Fel y dywedodd Arweinydd y Tŷ ar y pryd yn ei thystiolaeth i'r sesiwn ar y cyd fis Tachwedd diwethaf, yr adnodd asesu effaith integredig yw'r dull a ddefnyddir i asesu effaith polisi penodol. Mae'r ffordd y caiff effaith penderfyniadau gwario eu hasesu (yr Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb) yn ategu'r asesiadau unigol o effaith polisiâu sy'n cael eu dwyn ynghyd o dan Asesiadau Effaith Integredig ac yn dibynnu arnynt.

Er mwyn helpu ystyriaeth yn y dyfodol, mae'r canlynol yn rhoi trosolwg o bob un:

- **Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb** Mae'n anelu at gyflawni ein cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau gwario a wneir fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith, sef cydraddoldebau, hawliau dynol, hawliau plant, y Gymraeg, newid yn yr hinsawdd, prawfesur polisiâu o safbwynt anghenion cefn gwlad, iechyd, bioamrywiaeth a datblygu economaidd. Mae anfantais economaidd-gymdeithasol yn ystyriaeth sylfaenol wrth asesu effaith penderfyniadau cyllidebol. Felly, mae'r Asesiad Effaith Integredig Strategol yn nodi sut mae'r ystyriaethau hyn wedi llywio'r dyraniadau cyllidebol strategol a wneir fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol er mwyn gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru (datblygu cynaliadwy).
- **Adnodd Asesu Effaith Integredig** Cafodd yr adnodd hwn ei lansio ym mis Gorffennaf 2018 a'i ddatblygu i symleiddio asesiadau effaith presennol Llywodraeth Cymru yn un fframwaith integredig a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisiâu a deddfwriaeth. Cafodd ei strwythuro drwy ddefnyddio egwyddor datblygu cynaliadwy Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, sef gwella llesiant economaidd, cymdeithasol, amgylcheddol a diwylliannol Cymru

(fel y'i mynegwyd drwy saith nod llesiant Cymru). Mae hefyd yn rhoi arweiniad ar gymhwyso'r pum ffordd o weithio wrth wneud penderfyniadau. Mae'r adnodd asesu effaith integredig wedi'i gynllunio i gefnogi'r broses bolisi drwy helpu'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau i ddeall effeithiau posibl (cadarnhaol a negyddol) polisïau o gam cynnar ac wrth iddynt ddatblygu. Mae asesu'r effaith ar bobl a lleoedd a llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol yn allweddol i lunio polisïau da, ac mae'r adnodd yn cefnogi'r ystyriaethau hyn drwy gydol y broses o ddatblygu polisïau.

## **Argymhelliad 1. Bod Llywodraeth Cymru yn nodi'n glir y broses asesiad effaith integredig strategol (yn fanylach na'r hyn a ddarparwyd yn flaenorol), ei diben a'r canlyniadau disgwylidig, yn dilyn ymgysylltu â'r comisiynwyr statudol perthnasol a chael eu cytundeb**

### **Ymateb: Derbyn**

Yn yr ymateb i argymhellion gan y Pwyllgor Cyllid yn ei adroddiad *Craffu ar Gyllideb Ddrafft Comisiwn y Cynulliad 2019-20*, gwnaethom ymrwymo i adeiladu'n barhaus ar welliannau i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol er mwyn ei wneud yn fwy gwerthfawr wrth ystyried effaith penderfyniadau gwario strategol. Byddwn yn myfyrio ymhellach ar y dystiolaeth a roddwyd i'r pwyllgorau mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol.

Fel rhan o hyn, byddwn yn gweithio gyda'r comisiynwyr statudol perthnasol er mwyn rhoi mwy o eglurder ynghylch diben y broses asesu effaith integredig strategol a'r canlyniadau disgwylidig, wrth ystyried sut y gellir defnyddio ein dull gweithredu yn fwy effeithiol i lywio penderfyniadau gwario a blaenoriaethau fel rhan o'r broses gyllidebu flynyddol.

Er mwyn sicrhau bod y trafodaethau hyn yn cefnogi datblygiadau ehangach, byddwn hefyd yn sicrhau bod y broses ymgysylltu hon yn gyson ag adolygiad 2019 o'r adnodd asesu effaith integredig (gweler yr ymateb i Argymhelliad 3).

## **Argymhelliad 2. Bod Llywodraeth Cymru yn cyhoeddi ei holl asesiadau effaith unigol mewn man canolog, fel y gall yr asesiad effaith integredig strategol gyfeirio atynt wedyn.**

### **Ymateb: Derbyn mewn egwyddor**

Mae Llywodraeth Cymru yn ymrwymedig i gysyniad 'Llywodraeth Agored' fel y dangoswyd gennym wrth gyhoeddi ein *Cynllun Gweithredu Cenedlaethol Llywodraeth Agored*<sup>1</sup>. Mae'r ymrwymadau yn amlinellu ein huchelgeisiau i fod yn fwy agored ac ymatebol i ddinasyddion, yn fwy atebol a mynd ati'n fwy cydweithredol o ran y ffordd rydym yn gweithio. Rydym yn cydnabod yn llawn yr angen i adeiladu ar y gwaith a wnaed hyd yma drwy barhau i hyrwyddo ymdrechion i fod yn agored ac yn dryloyw.

---

<sup>1</sup><https://llyw.cymru/cynllun-gweithredu-cenedlaethol-llywodraeth-agored-y-du-2016-18-ymrwymadau-llywodraeth-cymru>

Fel arfer, caiff asesiadau effaith unigol o benderfyniadau pwysig eu cyhoeddi fel rhan o ddogfennaeth y polisi ar wefan Llywodraeth Cymru. Gellir eu gweld ochr yn ochr â dogfennau polisi cyhoeddedig ond ni chânt eu cadw mewn lleoliad canolog ar wahân, a hynny er mwyn sicrhau y gall y rhai sy'n chwilio am y wybodaeth weld a deall yr holl ystyriaethau a'r gyfres ategol o ddogfennau mewn perthynas â pholisi a/neu benderfyniad penodol. Er y byddai'n bosibl, mewn egwyddor, osod yr holl asesiadau effaith a gyhoeddir mewn un man, bydd angen ystyried ymhellach p'un a fyddai hyn yn helpu o ran hygyrchedd, dealltwriaeth a thryloywder.

**Argymhelliad 3. Bod Llywodraeth Cymru, ar ddiwedd y Cynulliad hwn, yn comisiynu darn penodol o waith i ystyried y cynnydd a wnaed mewn perthynas ag asesiadau effaith integredig strategol. Dylai ystyried materion fel cymhlethdod cymharol yr offeryn, sut y mae'r offeryn wedi mynd i'r afael â phwysoli hawliau ac effeithiau lluosog, a'r defnyddiau a wnaed o allbynnau'r offeryn (ond ni ddylid cyfyngu'r darn o waith i hyn).**

**Ymateb: Derbyn**

### **Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb**

Yn unol â'n hymrwymiad i wella'n barhaus sut rydym yn ystyried effaith penderfyniadau gwario a wneir drwy'r broses gyllidebu flynyddol, rydym yn cydnabod bod angen adolygu'r dull gweithredu sy'n sail i'r Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r Gyllideb.

Ers inni gyhoeddi asesiad o effaith ar gydraddoldeb gyntaf ar gyfer Cyllideb 2011-12, wedi addasu ein dull gweithredu er mwyn datblygu Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb ers 2015-16. Mae hyn yn adlewyrchu'r ffaith ein bod bellach yn anelu at gyflawni ein cyfrifoldeb i ystyried penderfyniadau gwario strategol o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith.

Ochr yn ochr â pharatoi ar gyfer y gyllideb arfaethedig, rydym yn bwriadu profi dulliau gweithredu amgen sydd â'r nod o wella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau gwario ac yn deall eu heffaith. Rydym hefyd yn ystyried sut y gallai adnodd gwirio'r siwrnai Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol gefnogi'r gwaith hwn. Byddwn yn fwy na pharod i weithio gyda'r Pwyllgorau wrth i'r gwaith hwn fynd yn ei flaen.

Dros gyfnod hwy, byddwn yn ystyried sut y gallai darn mwy penodol o waith sy'n adolygu'r cynnydd a wnaed mewn perthynas â'r Asesiad Effaith Integredig Strategol helpu i wneud gwelliannau pellach. Byddai angen i'r gwaith hwn fod yn gyson â'r adolygiad y bwriedir ei gynnal yn 2019 o'r adnodd asesu effaith integredig a ddisgrifir isod.

### **Adnodd Asesu Effaith Integredig**

Fel y nodwyd yn gynharach yn yr ymateb hwn, drwy'r adnodd asesu effaith integredig y caiff yr asesiad o effaith polisi penodol ei lunio. Cafodd yr adnodd asesu effaith integredig ei ddatblygu i symleiddio asesiadau effaith presennol Llywodraeth

Cymru yn un fframwaith integredig a fydd yn llywio'r broses o ddatblygu polisïau a deddfwriaeth. Cafodd y broses o ddatblygu'r adnodd asesu effaith integredig ei llywio gan adroddiad gan Sefydliad Polisi Cyhoeddus Cymru a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru *Reducing Complexity and Adding Value: A Strategic Approach to Impact Assessment in the Welsh Government*<sup>2</sup>.

Un o themâu allweddol yr adroddiad oedd bod angen system gydlynol o asesu effaith yng nghyd-destun y ffaith ei fod yn rhan annatod o'r broses llunio polisïau. Nododd yr adroddiad hefyd fod Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn cynnig fframwaith cadarn ar gyfer cysoni ac integreiddio'r ffordd y caiff effaith ei hasesu. Mae'n bwysig nodi mai canllaw yw'r adnodd asesu effaith integredig, y bwriedir iddo helpu i ddatblygu polisi felly pan gaiff dewisiadau eu gwneud ynglŷn â sut i weithredu, caiff Gweinidogion Cymru eu hysbysu o effeithiau cadarnhaol a negyddol posibl.

Pan lanswyd yr adnodd asesu effaith integredig ym mis Gorffennaf 2018, gwnaethom ymrwmo i adolygu'r adnodd yn ystod 2019 er mwyn ystyried ei effeithiolrwydd a ph'un a yw gwelliannau pellach yn briodol. Yr adborth o ddefnyddio'r adnodd hyd yma yw ei fod yn ddefnyddiol iawn o ran galluogi dull gweithredu mwy integredig ond mae'n eithaf cymhleth, hir ac anodd, yn enwedig os caiff ei ystyried yn rhy hwyr yn y broses o lunio polisi. Felly, un o'r prif feysydd y byddwn yn canolbwyntio arno fydd mireinio'r adnodd ymhellach er mwyn sicrhau ei fod yn cefnogi'r gwaith o asesu effaith drwy gydol y broses o lunio polisïau a deddfwriaeth.

Bydd adolygiad 2019 yn gynhwysfawr ac yn canolbwyntio ar hyrwyddo gwell proses o lunio polisïau a mwy o dryloywder. Bydd hefyd yn cynnwys ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr statudol ac aelodau o Grŵp Cyngorol y Gyllideb ar Gydraddoldeb.

**Argymhelliad 4. Bod Llywodraeth Cymru yn ymrwmo i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn fframwaith ar gyfer yr asesiad effaith integredig strategol. O ystyried y meysydd y mae ein pwyllgorau'n canolbwyntio arnynt, credwn y dylid rhoi blaenoriaeth i weithio gyda'r Comisiynydd Plant a'r Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol i sicrhau bod y gofynion deddfwriaethol mewn perthynas â chydraddoldeb a hawliau plant yn cael eu hadlewyrchu'n llawn ac yn effeithiol yn y broses asesu.**

**Ymateb: Derbyn**

**Asesiad Effaith Integredig Strategol o'r gyllideb**

Yn 2016-17, ymrwymodd Llywodraeth Cymru i ddefnyddio Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol i lunio a llywio ein hystyriaethau o gynigion cyllidebol. Rydym yn ymrwymedig o hyd i ddefnyddio'r Ddeddf er mwyn gwella'r ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau am lesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru, nawr ac yn y dyfodol. Mae'r Ddeddf yn rhoi cyfle i integreiddio'r ffordd rydym yn asesu effaith polisïau mewn modd sy'n ategu ac yn atgyfnerthu'r

---

<sup>2</sup> [https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Impact-Assessments\\_FINAL-30-Apr.pdf](https://www.wcpp.org.uk/wp-content/uploads/2018/04/Impact-Assessments_FINAL-30-Apr.pdf)

dyletswyddau statudol presennol. Mae'r asesiad o effaith polisiâu ar gydraddoldebau a hawliau plant, er enghraifft, yn hanfodol er mwyn sicrhau llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol fel y'i mynegir yn y saith nod llesiant.

Drwy weithredu mewn ffordd integredig, gallwn ystyried penderfyniadau gwario strategol o safbwynt sawl agwedd er mwyn deall eu heffaith, ac mae hyn yn ein galluogi i ddeall effaith penderfyniadau yn well yn gyffredinol. Wrth asesu effaith penderfyniadau, rhoddir ystyriaeth i Gydraddoldebau a Hawliau Dynol, Hawliau Plant, y Gymraeg ac anfantais economaidd-gymdeithasol.

Fodd bynnag, rydym yn cydnabod bod rhagor o waith i'w wneud. Yn ei dystiolaeth i'r pwyllgorau, disgrifiodd y Gweinidog Cyllid ar y pryd y camau a gymerwyd gennym i atgyfnerthu'r broses y llynedd, gan gynnwys mwy o hyfforddiant i swyddogion y gyllideb ym mhob rhan o'r llywodraeth, a oedd yn cynnwys swyddfa Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol. Gwnaethom hefyd gyflwyno naratif y gyllideb (ar ffurf amlinellol a manwl) a'r Asesiad Effaith Integredig Strategol ategol o dan y 12 amcan llesiant a chwe maes blaenoriaeth *Ffyniant i Bawb* er mwyn inni nodi'n gliriach sut mae penderfyniadau ynglŷn â chyllid yn cefnogi ein hamcanion. Byddwn yn parhau i fyfyrion ar y ffordd rydym yn cynnal yr Asesiad Effaith Integredig Strategol mewn cylchoedd cyllidebol yn y dyfodol.

### **Adnodd Asesu Effaith Integredig**

Wrth ddatblygu'r adnodd asesu effaith integredig, rydym wedi mynd ati i integreiddio'r holl asesiadau effaith presennol gan ddefnyddio fframwaith Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, yn unol ag argymhellion blaenorol y Pwyllgor Cyllid. Mae'r adnodd hwn yn ei gwneud yn ofynnol i'r holl asesiadau effaith gael eu hystyried yn llawn ac i'r holl ofynion statudol gael eu bodloni. Dylid defnyddio'r adnodd fel canllaw i helpu i ddatblygu polisi mewn ffordd gydweithredol ac integredig sy'n seiliedig ar dystiolaeth, sy'n edrych ar y byrdymor a'r hirdymor, yn ogystal ag atal. Dylai'r adnodd hefyd gefnogi'r gwaith o gofnodi a chyflwyno tystiolaeth o'r pum ffordd o weithio drwy gydol y broses.

Ein nod wrth adolygu effeithiolrwydd yr adnodd yn ystod 2019 fydd sicrhau bod rhychwant llawn effeithiau yn cael ei ystyried yn effeithiol a'i asesu ar gam cynnar o'r broses o lunio polisi ac ar bob cam o ddatblygu'r polisi. Bydd yr adolygiad hefyd yn cynnwys ymgysylltu â nifer o randdeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr statudol er mwyn nodi eu safbwyntiau.

**Argymhelliad 5. Bod Llywodraeth Cymru yn rhoi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgorau am ganlyniadau cyfarfod y comisiynwyr ym mis Tachwedd 2018, a pha bryd y rhagwelir y bydd yr ymchwil a gomisiynwyd ar integreiddio dyletswyddau yn cael ei chyhoeddi.**

### **Ymateb: Derbynn**

Fel y nodwyd yn ein hymateb i Argymhelliad 3, lanswyd yr adnodd asesu effaith integredig ym mis Gorffennaf 2018 a bu swyddogion yn bresennol ym Mhanel Cyngori Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol ym mis Tachwedd 2018 i drafod yr

adnodd. Yn y cyfarfod, mynegwyd pryderon gan rai aelodau ynglŷn â'r posibilrwydd y câi'r broses o ystyried effaith ei gwanhau wrth fynd ati mewn ffordd integredig. Cytunwyd y byddai swyddogion Llywodraeth Cymru yn ymgysylltu â'r Panel Cyngori ymhellach yn ystod yr adolygiad o'r adnodd asesu effaith integredig ac yn ceisio mynd i'r afael â'r pryderon a godwyd. Mae swyddogion wedi cytuno â Chomisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol y byddant yn bresennol yng nghyfarfod nesaf y Panel Cyngori ym mis Gorffennaf 2019 i drafod hynt yr adolygiad a champau pellach. Bydd y camau pellach hyn yn cynnwys parhau i ymgysylltu â rhanddeiliaid allanol, gan gynnwys y Comisiynwyr.

O ran yr ymchwil, ym mis Tachwedd 2018 nododd Arweinydd y Tŷ a'r Prif Chwip ar y pryd y byddai Llywodraeth Cymru yn comisiynu ymchwil i ystyried sut y gallem ymgorffori hawliau confensiwn y CU ymhellach yng nghyfraith Cymru, cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol ac atgyfnerthu rheoliadau neu ganllawiau sy'n bodoli eisoes. Y nod cyffredinol oedd ystyried sut y byddai camau gweithredu o'r fath yn rhyngweithio â fframwaith deddfwriaethol presennol Cymru, gan gynnwys Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn benodol.

O ganlyniad i hyn, cyhoeddodd y Prif Weinidog ym mis Rhagfyr 2018 y byddai Llywodraeth Cymru yn cychwyn y ddyletswydd economaidd-gymdeithasol, gan gynnig man penodol y gellir ystyried opsiynau eraill ar gyfer atgyfnerthu cydraddoldeb a hawliau dynol yng Nghymru o'i amgylch. Wedyn, cynhaliwyd gweithdy cychwynnol ym mis Chwefror 2019, a oedd yn cynnwys rhanddeiliaid ac arbenigwyr cydraddoldeb a hawliau dynol allweddol, y Dirprwy Weinidog a'r Prif Chwip, y Cwnsler Cyffredinol a'r Dirprwy Weinidog lechyd a Gwasanaethau Gymdeithasol. Tynnodd y gweithdy sylw at nifer o gwestiynau a phwysigrwydd cysoni'r gwaith hwn â nifer o ddatblygiadau cysylltiedig, gan gynnwys yr Adolygiad o Gydraddoldeb Rhywiol sy'n mynd rhagddo.

Mae angen rhagor o ymchwil sylweddol o hyd er mwyn mynd i'r afael â'r cwestiynau ehangach a drafodwyd yn y gweithdy, y byddwn yn cynnig y bydd yn dechrau erbyn mis Medi, gyda'r nod o'i chwblhau erbyn mis Rhagfyr 2020.